**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Gaffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori.**

Rydym yn croesawu casgliadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb a ganlyn i'r 12 argymhelliad a geir ynddo.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar effaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wrth wella arferion caffael a gwneud arbedion caffael, gan gynnwys dadansoddi ei effaith wrth herio a rheoli'r galw am wasanaethau ymgynghori yn y Sector Cyhoeddus. (Tudalen 12)

**Derbyniwyd**

Bydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) yn Is-adran o Gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru ac fe gaiff ei lansio ym mis Tachwedd 2013 gan y Gweinidog Cyllid, Jane Hutt AC.

Bydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol cyntaf ym mis Ebrill 2015, ar ddiwedd ei flwyddyn ariannol lawn gyntaf. Bydd yr adroddiad blynyddol yn cynnwys manylion arbedion a wnaed, ynghyd â'r cynlluniau a'r technegau a ddefnyddiwyd i wneud yr arbedion. Bydd lleihau costau, rheoli'r galw ac ysgogi arbedion maint ymhlith y strategaethau a ddefnyddir i sicrhau'r budd mwyaf trwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

Mae Gwasanaethau Ymgynghori yn dod o fewn cwmpas categori y Gwasanaethau Proffesiynol yn y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ac felly adroddir yn benodol ar y cynnydd a wneir yn y categori hwn.

Cyfrifoldeb Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol fydd cyflawni'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried costau a buddiannau datblygu gallu ac adnoddau mewnol i lanhau a dadansoddi data ar gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori. (Tudalen 17)

**Derbyniwyd**

Caiff yr opsiynau eu hadolygu yn barhaus – mae angen rhagor o ystyriaeth ar yr opsiwn o wneud y gwaith yn fewnol a chyfrif y costau'n fanwl.

Mae Gwerth Cymru wedi comisiynu Spikes Cavell ddwywaith, trwy dendr cystadleuol, i fynd ati i ddadansoddi data caffael o sefydliadau trwy'r sector cyhoeddus yng Nghymru i gyd. Mae hon yn dasg gymhleth sy'n gofyn am lawer o adnoddau, yn bennaf gan fod gwahanol gyrff cyhoeddus yn defnyddio gwahanol systemau cyllid a gwahanol systemau codio. Mae'r gwaith yn cynhyrchu llawer iawn

DRAFT

o ddata y mae angen eu gwe-letya gyda chyfleusterau ymholi wedi'u rhaglennu fel y byddant ar gael i wahanol fathau o ddefnyddwyr. Mantais y dull hwn yw y gellir cyfuno gwahanol gronfeydd data i roi data mwy ystyrlon – er enghraifft, y gwariant yng Nghymru yn ôl categori, rhanbarth neu sector a'r gwariant gyda BBaChau.

Pe bai'n fwriad i ganfod y swm a wariwyd ar gategori penodol yn unig, byddai creu diffiniad a mecanwaith codio cyffredin ar gyfer gwasnaethau ymgynghori yn arwain at welliant sylweddol wrth adrodd am y maes gwariant hwn. Mae Argymhelliad Tri isod yn cyfeirio at hynny.

Cyn hyn, bu'r farchnad gystadleuol yn yr agwedd hon ar waith dadansoddi data a chloddio data yn eithaf cyfyngedig. Fodd bynnag, mae marchnad fwy cystadleuol yn datblygu, gyda nifer o gyflenwyr yn cynnig dewisiadau gwahanol a mwy cost-effeithiol. Nid oes gan Spikes Cavell fonopoli yn y farchnad. Mae gwaith dadansoddi yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gan ddefnyddio darparwr arall. Bydd hyn o gymorth i sicrhau cystadleuaeth, gan leihau costau cynnal dadansoddiadau fel hyn.

Cyfrifoldeb Dirprwy Gyfarwyddwr Gwerth Cymru fydd cyflawni'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cydweithredu â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus er mwyn meithrin dealltwriaeth gyffredin a diffiniad o wasanaethau ymgynghori. (Tudalen 19)

**Derbyniwyd**

Bydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn datblygu'r strategaeth ar gyfer gwasanaethau ymgynghori fel rhan o gategori Gwasanaethau Proffesiynol. Er mwyn symud ymlaen yn llwyddiannus â'r strategaeth, bydd yn bwysig datblygu diffiniad cyffredin ar gyfer gwasanaethau ymgynghori. Bydd angen y diffiniad hwn ar Arweinydd y Categori fel y gellir casglu data cyffredin er mwyn cael y budd mwyaf posibl a sicrhau cysondeb yn yr adroddiadau.

Bydd Pennaeth Categori'r Gwasanaethau Proffesiynol yn datblygu dealltwriaeth a diffiniad cyffredin o wasanaethau ymgynghori a bydd gofyn i randdeiliaid o bob rhan o'r sector cyhoeddus gytuno arnynt erbyn mis Mawrth 2014.

Cyfrifoldeb Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol fydd cyflawni'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda darpar ddefnyddwyr y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ac yn cyflwyno trefniadau monitro cadarn er mwyn sicrhau bod yr arbedion posibl a ddisgwylir gan y Gwasanaeth yn cael eu cyflawni. (Tudalen 23)

**Derbyniwyd**

DRAFT

Bydd strwythur llywodraethu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn sicrhau trefniadau monitro cadarn ar yr arbedion a'r buddion y mae'r Gwasanaeth yn eu cyflawni. Rhanddeiliaid, yn bennaf, fydd aelodau Bwrdd y Gwasanaeth a bydd ganddo Gadeirydd annibynnol, a benodir trwy'r Broses Penodiadau Cyhoeddus. Penodir Cadeirydd dros dro i weithredu tan fis Chwefror 2014.

Bydd Bwrdd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn adrodd wrth Fwrdd Caffael Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus (PSLG), sydd o dan gadeiryddiaeth Will Godfrey – Prif Weithredwr Cyngor Dinas Casnewydd. Mae'r Bwrdd Caffael yn ei dro yn adrodd yn uniongyrchol wrth Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n monitro hynt ei weithgareddau ar ffrydiau gwaith trwy Fframwaith Mesur.

Mae trefniadau llywodraethu a monitro'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wrthi'n cael eu datblygu a byddant yn eu lle pan gaiff y Gwasanaeth ei lansio.

Cyfrifoldeb Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol fydd cyflawni'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau mai un o amcanion penodol y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yw sicrhau'r buddiannau mwyaf o wariant cyhoeddus yn y sector preifat yng Nghymru, fel rhan o'i amcanion ehangach i sicrhau'r gwerth mwyaf am arian cyhoeddus.

(Tudalen 23)
**Derbyniwyd**

Seilir datblygiad y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar achos busnes sy'n nodi wyth Egwyddor Weithredu allweddol. Yr Egwyddorion Gweithredu hyn, a restrir isod, yw sylfaen ymrwymiad sefydliadau i fod yn gwsmeriaid i'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Mae Egwyddor Pump yn cyfeirio'n benodol at ddatblygu strategaethau gan y Gwasanaeth a gaiff effaith gadarnhaol ar economi Cymru.

Caiff hynt y gwaith tuag at gyflawni pob un o'r wyth egwyddor ei fonitro trwy'r trefniadau llywodraethu ac adrodd y cyfeirir atynt yn yr ymateb i Argymhelliad Pedwar (uchod).

1. Bydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn gyfrwng strategol i gaffael nwyddau a gwasanaethau cyffredin ar gyfer Cymru, gan dalu sylw i anghenion pob sector;

2. Bydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn canolbwyntio ar dair agwedd ar y broses gaffael – Datblygu Manylebau Cyffredin, Tendro a Rheoli Contractau;

3. Caiff y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ei drefnu ar sail "rheoli yn ôl categori".

DRAFT

4. Bydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn ceisio manteisio i'r eithaf ar faint sector cyhoeddus Cymru ar gyfer caffael, ond bydd hefyd yn canolbwyntio ar ddylanwadu ar waith rheoli'r galw a defnyddio arferion gorau;

5. **Bydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn ceisio datblygu strategaethau a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar economi Cymru;**

6. Bydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn defnyddio Polisi Caffael Sector Cyhoeddus Cymru i helpu i weithredu ar sail arferion gorau (bydd y Gwasanaeth yn mabwysiadu blaenoriaethau polisi'r Gweinidogion), bydd yn ceisio mabwysiadu un broses gaffael safonol a bydd yn defnyddio technoleg yn gymorth i weithredu prosesau a systemau;

7. Ymrwymir i'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol am gyfnod y cytunir arno (mae cyfnod o 3-5 mlynedd yn cael ei ystyried) gyda chyfnod o rybudd;

8. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y Gwasanaeth Caffael yn mynnu bod rhanddeiliaid yn ymrwymo'n llwyr i ddefnyddio'r contractau sy'n cael eu creu gan y Gwasanaeth. Byddai angen i'r Prif Weithredwyr gefnogi hyn a chyfarwyddo'r Penaethiaid Gwasanaethau ac Arweinyddion Gwasanaethau i wneud hynny. Byddai angen i unrhyw gorff gyflwyno'i achos dros eithrio o drefniant caffael penodol cyn dechrau'r prosesau tendro.

Cyfrifoldeb Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol fydd cyflawni'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i gostau a buddiannau sefydlu Fframwaith Caffael y Llywodraeth i Gymru.

(Tudalen 25)
**Derbyniwyd**

Cyfrifoldeb y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol fydd asesu manteision sefydlu fframweithiau caffael cydweithredol mewn categorïau oddi mewn i gwmpas ei waith. Bydd yn ofynnol i bob Pennaeth Categori ddatblygu strategaeth fanwl ar gyfer y maes gwariant y mae'n gyfrifol amdano. Mewn rhai achosion, efallai y bydd fframweithiau mwy o faint, ar gyfer Cymru gyfan, yn briodol. Fodd bynnag, does dim un ateb sy'n addas i bawb ac mae'n bwysig bod y dull a ddefnyddir ym maes pob categori yn sicrhau'r gwerth gorau am arian ac yn cynnig cyfleoedd i hybu economi Cymru.

Bydd Pennaeth Categori gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer categori'r gwasanaethau proffesiynol. Bydd yn gyfrifol am gydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu strategaeth gysylltiedig y categori. Bydd hyn yn cynnwys ystyried i ba raddau y byddai fframwaith ar gyfer Cymru gyfan yn fanteisiol yn y categori hwn.

Cyfrifoldeb Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol fydd cyflawni'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn pennu methodoleg gyson er mwyn galluogi cyrff cyhoeddus i ddadansoddi eu perfformiad wrth gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori. Rhagwelwn y byddai pecyn cymorth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cael ei ystyried fel rhan o'r penderfyniad hwn. (Tudalen 28)

**Derbyniwyd**

Fel y nodwyd yn yr ymateb i Argymhelliad Chwech uchod, Pennaeth y Categori fydd yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth y categori, a fydd yn cynnwys mecanweithiau monitro a meincnodi.

Caiff pecyn cymorth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ei ystyried fel rhan o'r broses hon, ynghyd â dulliau gweithredu a methodolegau eraill.

Bydd y casgliad y deuir iddo o ganlyniad i'r ystyriaeth hon yn rhan o strategaeth gyffredinol y categori.

Cyfrifoldeb Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol fydd cyflawni'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn datblygu canllawiau a thempledi er mwyn sicrhau bod achosion busnes yn bodoli ar gyfer gwahanol ymarferion caffael, a'u bod yn gadarn. (Tudalen 31)

**Derbyniwyd**

Bydd datblygu templedi a chanllawiau addas i helpu sefydliadau ledled y sector cyhoeddus i ddatblygu achos busnes cadarn sy'n gymesur â gwerth y gwariant, ar gyfer caffael gwasanaethau ymgynghori, yn rhan o'r dasg o sefydlu strategaeth y categori.

Bydd unrhyw ddogfennau canllawiau a thempledi yn cael eu cynnwys yn y Canllaw Cynllunio Caffael sydd gan Gwerth Cymru. Bydd hyn yn golygu bod y dogfennau hynny ar gael i'r cyhoedd ledled Cymru.

Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Dirprwy Gyfarwyddwr Gwerth Cymru fydd yn gyfrifol, ar y cyd, am gyflawni'r argymhelliad hwn, y naill i sicrhau bod canllawiau a thempledi addas yn cael eu datblygu a'r llall i sicrhau bod yr holl ddogfennau hynny'n cael eu gosod yn y mannau iawn a'u rhannu yn y modd priodol).

DRAFT

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn ystyried y posibilrwydd o ddatblygu cofrestr o arbenigedd yn y sector cyhoeddus sydd ar gael am gyngor neu secondiad. (Tudalen 34)

**Derbyniwyd**

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r syniad o rannu mwy ar adnoddau'r gwasanaeth cyhoeddus er mwyn ymateb i anghenion am sgiliau arbennig a lleihau'r ddibyniaeth ar gyngor ymgynghorwyr allanol, sydd yn aml yn ddrud. Mae eisoes nifer o fecanweithiau, ffurfiol ac anffurfiol, sy'n golygu y gellir cyfnewid gwybodaeth ac arbenigedd yn effeithiol, er enghraifft trwy secondiadau a hysbysebir gan sefydliadau unigol neu ar wefan AcademiWales. Ceir eisoes rwydweithiau proffesiynol a chymunedau ymarfer sy'n cynnig ffyrdd mwy anffurfiol o gefnogi a rhannu arferion da.

Byddai'n briodol i Lywodraeth Cymru gysylltu â'r rhwydweithiau hyn i ofyn iddynt ystyried a fyddai cofrestr o'r fath yn addas a sut y gallai annog pobl i rannu arbenigedd mewn modd defnyddiol, a chynnig eu cyngor ar y mater.

Cyfrifoldeb Cyfarwyddwr AcademiWales fydd cyflawni'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yr opsiynau ar gyfer gwella capasiti a gallu sefydliadau yn y sector cyhoeddus er mwyn datblygu'r sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen i fynd i'r afael â heriau parhaus. Os bydd yn llwyddiannus, gallai hyn gynnwys ymchwilio i'r posibilrwydd o atgynhyrchu model Academi Caerdydd ledled Cymru. (Tudalen 35)

**Derbyniwyd**

Mae'r gwaith o adolygu materion yn ymwneud â chapasiti a gallu yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi cychwyn fel rhan o adolygiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd hyn yn cyfrannu at weithgareddau y dylai Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill yn y gwasanaethau cyhoeddus eu cynnal yn y dyfodol i wella sgiliau mewn meysydd proffesiynol.

Cynigir cyfleoedd i ennill cymwysterau penodol eisoes trwy lwybrau proffesiynol sefydliadau, yn cynnwys staff Llywodraeth Cymru. Caiff hyn ei ariannu'n lleol a phenderfynir arno yn ôl swyddogaethau swyddi penodol. Mae sefydliadau eraill yn y gwasanaethau cyhoeddus yn dal i hyrwyddo eu cynlluniau a'u mentrau eu hunain er mwyn annog datblygiad sgiliau proffesiynol.

Er y byddai'n briodol cynnwys modiwlau arbenigol ar lwyfannau dysgu ar-lein fel Academi Caerdydd, byddai angen iddynt gael eu hachredu'n briodol yn ôl safonau cenedlaethol diwydiannau a safonau galwedigaethol cenedlaethol sydd eisoes yn bodoli yn y gwahanol broffesiynau. Mae nifer o gyrsiau, yn cynnwys cyrsiau ar-lein, eisoes yn cael eu cynnig gan sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant mewn meysydd proffesiynol.

DRAFT

Cyfrifoldeb Cyfarwyddwr AcademiWales fydd cyflawnni'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, drwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, yn ystyried sut y gall fonitro arferion caffael cyrff cyhoeddus ac adrodd arnynt fel y gellid eu dal i gyfrif yn well. (Tudalen 41)

**Derbyniwyd**

Cafodd disgwyliadau Gweinidogion Cymru o ran arferion caffael cyrff cyhoeddus ledled Cymru eu nodi'n glir gan y Gweinidog Cyllid, Jane Hutt, AC yn Natganiad Polisi Caffael Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2012. Wrth gyhoeddi'r datganiad hwn, dywedodd y Gweinidog yn glir nad oedd dewis, yn ei barn hi, ond ei fabwysiadu ac y byddai'n ystyried rheoliadau neu ddeddfwriaeth ychwanegol pe na bai'n cael ei dderbyn yn llawn. Cyfrifoldeb Gwerth Cymru yw monitro'r gwaith o fabwysiadu naw egwyddor Datganiad Polisi Caffael Cymru ac adrodd arno.

Bydd rhaglen o Archwiliadau Iechyd ar Ffitrwydd Caffael yn dechrau ym mis Hydref 2013 ym mhob awdurdod lleol, a disgwylir y bydd pob awdurdod wedi cwblhau'r broses erbyn mis Mawrth 2014. Bydd pob Archwiliad Iechyd yn arwain at gynllun gweithredu i wella'r awdurdod.

Bydd cyrff eraill y sector cyhoeddus yn dechrau mynd trwy broses yr Archwiliadau Iechyd Caffael ym mis Ebrill 2014.

Cyfrifoldeb Dirprwy Gyfarwyddwr Gwerth Cymru fydd cyflawni'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn ystyried y potensial i wneud hyfforddiant ar reoli contractau yn ofynnol i'w staff cyn dod yn gyfrifol am gontract. Rhagwelwn y bydd hyfforddiant o'r fath yn rhoi pwyslais ar bwysigrwydd gwerthuso perfformiad ymgynghorwyr fel elfen graidd o waith rheoli contractau effeithiol. (Tudalen 44)

**Derbyniwyd**

Bydd hyfforddiant ar reoli contractau yn dod yn ofynnol i staff a fydd yn dod yn gyfrifol am reoli contract yn Llywodraeth Cymru o fis Ebrill 2014 ymlaen.

Er na all Llywodraeth Cymru orfodi cyrff cyhoeddus eraill i wneud yr un peth, bydd yn rhannu'r hyn y mae'n ei ddysgu a'r arferion gorau a ddaw i'r amlwg o hyn trwy'r Canllaw Cynllunio Caffael (PRP).

Darparwyd cyrsiau hyfforddi ar reoli contractau trwy'r sector cyhoeddus i gyd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae hwn yn dal yn faes lle mae angen datblygu sgiliau. Mae Gwerth Cymru yn comisiynu darparwr hyfforddiant newydd ac mae'r contract i fod i gael ei ddyfarnu ym mis Hydref 2013. Ar ôl y penodiad, trefnir bod set o hyfforddiant caffael ar gael a fydd yn cynnwys rheoli contractau.

DRAFT

Cyfrifoldeb Dirprwy Gyfarwyddwr Gwerth Cymru fydd cyflawni’r argymhelliad hwn mewn perthynas â staff Llywodraeth Cymru.

DRAFT